Mari Jones, 1784–1866
Cristion

Hanai Mary Jones o Dy'n-y-ddol, Llanfihangel-y-Pennant wrth droed Cadair Idris, Meirionnydd, a gwehydd tlawd oedd ei thad. Pan oedd hi tua deg oed aeth i ysgol ddyddiol yn Abergynolwyn a oedd yng ngofal John Ellis o'r Bermo. Mynychai'r ysgol yn ffyddlon, er bod dros ddwy filltir o ffordd arw i'w cherdded, a datblygodd Mari'r gallu i gofio talpiau mawr o'r Beibl ar ei chof. Gan nad oedd ganddi Feibl yn ei chartref, byddai'n cerdded dwy filltir i fferm – Bodilan Fawr, fe dybir – lle roedd yna Feibl, er mwyn dysgu penodau ohono.

Penderfynodd gynilo'i harian prin er mwyn prynu Beibl iddi ei hun a bu am flynyddoedd yn casglu ei cheiniogau. Ymhen hir a hwyr roedd ganddi ddigon o arian, a'r lle agosaf a werthai Feiblau oedd y Bala. Er bod y dref honno dros 25 milltir i ffwrdd mentrodd draw at Thomas Charles i ofyn am Feibl. Cerddodd yn droednoeth, gan gario'i hesgidiau mewn cwdyn i'w gwisgo pan fyddai'n cyrraedd y dref.

Erbyn iddi gyrraedd yr oedd yn rhy hwyr i weld Thomas Charles felly cafodd lety yn nhŷ yr hen bregethwr Dafydd Edwards. Boregodwr oedd Thomas Charles a gwelodd Mari a Dafydd oleuni yn ei fyfyrgell cyn codi cŵn Caer. Aeth y ddau draw i'w gartref ac fe'u harweinwyd i mewn. Dywedodd Dafydd Edwards beth oedd neges Mari a holodd Thomas Charles hi gan ryfeddu at ei gwybodaeth Feiblaidd. Ond yna meddai Thomas Charles, 'Mae yn ddrwg dros ben gennyf weled yr eneth fach wedi dyfod yr holl ffordd o Lanfihangel yma i geisio Beibl, a finnau heb yr un i'w gael. Mae yr holl Feiblau a dderbyniais o Lundain i gyd ar ben er ys misoedd, ond rhyw ychydig o gopïau sydd yma i gyfeillion yr wyf wedi addaw eu cadw iddynt.'

Trywanodd ei eiriau galon Mari a dechreuodd feichio crio dros y tŷ yn aflywodraethus gan ddryllio calon Thomas Charles. 'Wel, fy ngeneth annwyl,' meddai, 'mi welaf fod yn rhaid i ti gael Beibl, er mor anhawdd ydyw i mi roddi un heb siomi cyfeillion

eraill; mae yn amhosibl i mi wrthod i ti.' Rhoddodd Feibl iddi a thalodd hithau iddo â'i chynilion. Ychwanegodd Thomas Charles, 'Os yw yn dda gennyt ti gael Beibl, mae yn dda iawn gennyf finnau ei roddi i ti. Darllena lawer arno, a dysg lawer o hono ar dy gof.' Yna dywedodd wrth Dafydd Edwards, 'Onid yw'r olygfa hon yn ddigon i hollti y galon galetaf; geneth ieuanc dlawd, ddeallus, yn gorfod cerdded yr holl ffordd o Lanfihangel, 50 milltir a mwy – i gael Beibl! Ni allaf fyth orffwys nes cael rhyw lwybr arall i gyfarfod ag angen mawr ein gwlad am Air Duw.' Y mae'r Beibl a gafodd Mari Jones gan Thomas Charles yn Nhŷ'r Beiblau yn Llundain.

Ysgogwyd Thomas Charles gan Mari Jones i fynd ati i geisio Beiblau fforddiadwy i werin Cymru. Ym 1802 gwnaeth yr angen am air Duw yng Nghymru yn hysbys i bwyllgor Cymdeithas y Traethodau Crefyddol yn Llundain gan adrodd hanes Mari Jones. Rhoddodd ei gynllun i sefydlu Cymdeithas Feiblau i Gymru gerbron y pwyllgor ac ymatebodd yr ysgrifennydd y Parch. Joseph Hughes, drwy ddweud, 'Os Cymdeithas i Gymru, paham nad i'r holl deyrnas – a'r holl fyd?' Ar 7 Mawrth 1804 cyfarfu 300 o gynrychiolwyr yr enwadau yn y London Tavern ac yno y sefydlwyd y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor. Ei gorchwyl cyntaf oedd cyflenwi angen Cymru gydag ugain mil o Feiblau a phum mil o Destamentau.

Y mae'r hanes hwn am Mari Jones wedi mynd ar led i bum cyfandir ac mae'n bosibl mai dyma'r hanes mwyaf cyfarwydd o Gymru yng ngweddill y byd. Bu farw Mari Jones Nadolig 1866 yn 82 oed a chladdwyd hi ym mynwent Bryn-crug. Y mae cofadail iddi yn Llanfihangel-y-Pennant, ar adfeilion yr hen fwthyn lle'r oedd yn byw.

Michael Jones, 1787–1853
Gweinidog (A) ac athro cyntaf Coleg Annibynnol y Bala

Ganwyd Michael Jones ym mhlwyf Henfynyw yn agos i Neuadd-lwyd, sir Aberteifi, lle roedd y teulu'n byw mewn tyddyn bychan o'r enw Ffosybontbren. Yn hwyr yn eu bywyd y daeth ei rieni at grefydd. Ymaelododd ei dad Daniel â'r Wesleaid yng Nghapel y Ficer, a'i fam Mari â'r Methodistiaid Calfinaidd yn Ffos-y-ffin. Bu'n was fferm am gyfnod cyn mynd i ennill ei fara beunyddiol fel saer maen. Cafodd dymor o addysg mewn ysgol, ac yna aeth i Lanbedr i ddysgu'r grefft o rwymo llyfrau.

Derbyniwyd ef yn aelod yn Neuadd-lwyd ym 1807 ac fe'i hanogwyd i ddechrau pregethu gan y gweinidog, Dr Phillips. Er mwyn ei ddiwyllio'i hun ymhellach aeth i ysgol enwog David Davis, Castellhywel. Ym 1810 cafodd ei dderbyn i athrofa'r gogledd yn Wrecsam a gedwid gan Dr Jenkin Lewis, a threuliodd bedair blynedd yno. Yn y cyfnod hwn daeth Dr George Lewis yno fel athro diwinyddol. Ym 1814 cafodd Michael Jones alwad gan eglwys yr Annibynwyr yn Llanuwchllyn ac fe'i hordeiniwyd fel olynydd i Dr George Lewis ar gyflog o £20 y flwyddyn; yno y bu am wyth mlynedd ar hugain. Priododd â Mari Hughes, Cwmcarnedd, Llanbryn-mair, gwraig a dorrwyd o'r un brethyn ag ef, ac fe gawsant bump o blant. Bu'r rhain yn flynyddoedd o gynnwrf a dadlau ffyrnig ymhlith arweinyddion Cristnogol Cymru ynghylch llywodraeth eglwysig a materion diwinyddol.

Yr oedd y prif wrthdaro rhwng pleidwyr Uchel Galfiniaeth a Chalfiniaeth gymedrol. Effeithiodd hyn ar yr eglwys yn Llanuwchllyn ond yn y fan honno yr oedd elfen ychwanegol i'r anghydfod, sef yr hen drefn Henaduriaethol. Holltodd yr eglwys yn ddwy ran, sef yr Hen Bobl a charfan Michael Jones. Cyhuddwyd ef gan yr Hen Bobl o danseilio'r Henaduriaeth oedd wedi bod yn rhan annatod o fywyd yr eglwys ers degawdau, a hefyd o goleddu syniadaeth Arminaidd. Dywedid bod Arminiaeth yn gwadu pechod gwreiddiol, yn gorbwysleisio cyfrifoldeb personol dyn yn nhrefn